HG 35.563

# GALAREB

## ER COFFADWRIAETH AM

Y DIWEDDAR

## BARCH. S. GRIFFITHS,

O HOREB,

*Yr hwn a ymadawodd â'r fuchedd hon ar y 4ydd dydd o Orphenaf*, 1860.

---

GAN EVAN THOMAS,

*(Un o hen Ddiaconiaid Horeb.)*

---

O achos nwyd, ni chais neb—a'i ogan,
Ddirmygu 'Ngalareb;
Pwy all fod mor hynod, heb
Hiraeth am Griffiths Horeb?

---

CASTELLNEWYDD-EMLYN:
ARGRAFFWYD GAN JOHN RICHARD DAVIES.
1860.

X265309924

W. Emlyn Jones
Rhyn ffores t
New Castle Emlyn
Cardigan Shire
South Wales

William Emlyn Jones
Rhyn ffores t
New Castle Emlyn
Cardigan Shire

Mr Davi Davis
Shoi Makir
Canel Bank
Cardiff

David Jones
Rhydyffos
Newcastle
Cardigan
South
Great

# GALAREB.

BYD yw hwn sy 'n gyfnewidiol,
  Annymunol lawer pryd;
Byd sydd beunydd i bob graddau,
  'N alarnadau trwyddo i gyd;
Angeu 'n dattod c'lymau tynion,
  Rhwng cyfeillion yma a thraw;
Nid oes ffafr am un gwasanaeth,
  Yn llywodraeth Brennin braw.

Teimlo 'n awr mae EGLWYS HOREB,
  BWLCHYGROES, a CHARMEL glwy',
Tynnodd GRIFFITHS o'u gafaelon,
  ATHRAW ffyddlon gyda 'n hwy:
Teimlo mae'r GYMDEITHAS FEIBLAIDD
  Yn LLANDYSSUL golled dwys,
Ef oedd un o'i phrif golofnau
  Am flynyddau 'n dala 'i phwys.

Dyn o gorph golygus ydoedd,
  Dyn a gafodd enaid mwy,
Synwyr cryf, a meddwl treiddgar,
  Doniau llafar gyda hwy;
Treiddiodd ef i ddeddfau PRYDAIN,
  Treiddiodd fwy i ddeddfau 'r NEF,
Cawsai pawb oedd flin mewn gofid,
  Gyfarwyddid gydag ef.

Carai heddwch Gwlad ac Eglwys,
  Gyrrai 'n gyfrwys gynhen ffwrdd,
Pan f'ai terfysg am ymgodi,
  Ceisid ef i gadw Cwrdd;
Llawer plaid bu e'n gymmodi,
  Attal wnaeth rwygiadau blin;
Diffodd tân oedd e'n chwenychu,
  Medrai wlychu'r tanwydd crin.

Penderfynodd newid cyflwr,
  Pan yn dair ar hugain oed,
Troes at Iesu gan ymofyn,
  Nerth i ddilyn ol ei droed ;
Ca'dd ei wneud yn aelod eglwys,
  Gyda'r Parch. M. Jones, Trelech,
Oedran Iesu'r flwyddyn hono,
  Ydoedd ddeunaw cant a chwech.

Gyda chael dwy flynedd gwedi,
  Gwnaeth bregethu yma a thraw,
Dweud am ffordd i bechaduriaid,
  Gael eu gwared ddydd a ddaw.
Teimlo 'n ddwys wnaeth EGLWYS HOREB,
  Ryw anwyldeb mawr ag ef,
Galwad ga'dd i'r weinidogaeth,
  Trwy ragluniaeth Brennin nef.

Plygodd yntau 'n ostyngedig,
  O flaen Duw wrth orsedd gras,
Am gael nerth dan bwys anmheuon,
  Fod yn ffyddlon megis gwas ;
Bendith fawr i Eglwys Horeb,
  Mewn sirioldeb aeth i'w swydd,
Urddwyd ef pan ydoedd Iesu,
  'N ddeunaw cant a deunaw mlwydd.

Llwyddodd i gynhyddu'r Eglwys
  Lawer mwy na llond y lle,
Trefnodd gael adeilad newydd,
  Trefnwr celfydd ydoedd E'.
Ca'dd y fraint o weled hwnw,
  Gwedi 'i lanw 'n eithaf llawn ;
Ffrwyth ei lafur welir yno,
  Gwedi llwyddo 'n rhyfedd iawn.

Llwyddodd gael trwy ymwroli,
  Dŷ i addoli 'n BWLCHYGROES,
CAPEL hardd a MYNWENT wrtho,
  Lle i orphwyso 'n niwedd oes :

Yno mae cyn'lleidfa wresog,
  Tra lluosog yn y lle,
Gwedi 'i dysgu 'n well na llawer,
  I iawn ymarfer gydag E'.

Cym'rodd ofal eglwys CARMEL,
  Hynod isel ydoedd hi,
Anhawdd gweled gwaeledd gymmaint,
  Heb fawr geraint, braint na bri;
Ni ryglyddai 'r enw CARMEL,
  Cymmaint oerfel ar bob llaw,
Sych a diffrwyth fel Gilboa,
  Pan heb wlychfa gwlith na gwlaw.

Fe bregethodd Grist mor uchel
  Nes i CARMEL swrth ddeffroi,
Gwelodd yno drwy'r gwirionedd,
  Gynnydd rhyfedd gwedi 'i roi;
Llawer gwan fu'n bron a gwywo,
  Glywsai 'n gweddio drosto draw;
Gwedi hau fe gydia 'r gwenith,
  Gyda bendith, gwlith a gwlaw.

Bu 'n trafaelu am flynyddau,
  Dros y bryniau i GAPELBRWYN;
Yno cododd enw'n Ceidwad,
  Farw o gariad er ein mwyn.
Rhyw ddylanwad mawr yn fuan,
  Yn yr Eglwys fechan fu,
Nes i lawer gyda theimlad,
  Ufuddhau i'n Ceidwad cu.

Bu ym mro a bryniau GWENOG,
  Yn pregethu 'n wlithog iawn,
Dilyn oedd yr holl ardaloedd
  Ar ei ol yn lluoedd llawn;
Penderfynwyd gyda 'u gilydd
  Godi CAPEL newydd hardd,
Lle cyfleus i gofio 'r Iesu,
  'R hwn fu 'n chwysu yn yr ardd.

Gwelir mai BRYNTEG yw'r CAPEL,
  Gwaith goruchel wneir ag ef,
Dechreu dysgu pechaduriaid,
  Fyw ymhlith anwyliaid nef;
Ef yn llon fu yno'n llywydd,
  A golygydd ar y gwaith;
'N ol ei radd oedd e'n ymroddi
  I wneud daioni ar ei daith.

Oedd fel Paul wrth athrawiaethu
  Am ddyrchafu Person Crist;
Dweud ei gariad fel Gwaredwr,
  Prynu dyn o'i gyflwr trist;
Dangos gwerth ei aberth iawnol,—
  Annghydmarol, rasol rodd,—
Rhodd mae 'r nefoedd gwedi dderbyn,—
  Deddfau 'r Brennin wrth eu bodd :—

Etto 'n llanw 'i swydd gyfryngol,
  Fry yn eiriol gyda 'r Tad,
Dros bechadur heb ddim haeddiant,
  Iddo i gael maddeuant rhad:
Dyma 'r hoff athrawiaeth gredodd,
  Dyma 'r un bregethodd ef;
D'wedai 'n hyf mai 'n enw 'n Ceidwad
  Ceir derbyniad yn y nef.

Ni phetrusai gan fod sylfaen
  Gadarn, nerthol, dan ei gred,
Sylfaen daena 'r holl ysgrythyr,
  Mewn modd eglur iawn ar led;
Sylfaen ddeil y dydd ofnadwy,
  A'i ryferthwy yn ddigoll!
Dydd gan ddychryn rhyw ysgwydfa
  'R ymollynga 'r bydoedd oll!!

Calon hael oedd gyson ganddo,
  Hoffai gynnorthwyo 'r gwan;
Er mwyn budd i bawb lle byddai
  Ymwrolai i wneud ei ran;

Ffyddlon oedd pan fyddai gofyn,
'Wyllys da dros Frennin nef,
Elai 'n rhwydd â'i law i'w logell,
Nid oedd eisiau i gymhell ef.

Fe fu gwên rhagluniaeth Ddwyfol,
Yn dra siriol i'r hen Sant,
Cadwodd deulu mawr rhag angen,
Gwraig a dwsain lawn o blant;
Pump o ferched, saith o feibion,
A gwasanaeth ddynion rai,
Mynych iawn amrywiol grefftwyr,
Ac ymdeithwyr yn ddidrai.

Teimlai i blant fod eisiau crefydd,
Oll ym moreu dydd eu hoes,
Cadw cof am angeu chwerw,
'R Gwr fu farw ar y groes.
Yma'm myd y gorthrymderau,
'Chydig ydoedd dyddiau THE.
Ca'dd ei fudo i fyd dedwyddach,
Llawer iawn amgenach lle.

Hwyliodd rhai dros for Atlantic,
I'r Americ bell gael byw,
Cadw wnaethant grefydd gysson,
Trwy beryglon o bob rhyw:
Bendith fawr i Cincinnati,
Ydoedd gwel'd eu hegni hwy,
Gyda 'u gwaith yn ddiwyd beunydd,
Gyda chrefydd lawer mwy.

Yno gwedi 'mroi am ennyd,
Cafodd SAM. ei symmud ffwrdd,
I breswylfa ddedwydd ailfyd;
Byd heb ofid byth i'w gwrdd:
Fe ga'dd William mewn disgwyliad,
Fyw gael gwel'd "*Diwygiad Mawr,*"
Gweled Seion mewn gogoniant,
Yn ei llwyddiant ar y llawr.

Gwel'd a theimlo ffrwythau 'r Ysbryd,
Esgyrn sychlyd yn bywhau;
Hên galonau 'n cael eu hagor,
Fu am dymmor hir yn nghau;
Yn y teimlad gwresog hwnnw,
Meddwl wnaeth am dŷ ei dad,
Penderfynodd ro'i ymweliad,
'N ol i'w enedigol wlad.

Yma bu mewn amryw fannau,
Rai wythnosau 'n llawn o dân,
Gyda pharch yn adrodd ffeithiau,
Dylanwadau 'r Ysbryd Glân:
Coffa gwres ac effaith gweddi
Ar galonau 'n toddi 'r ia,
Nerth adfywiad annghyffredin,
Deimlwyd yn Americâ.

Teimlwyd yma ryw adfywiad
Gyda 'i fyr ymweliad ef,
Tebyg iawn fod rhai ugeiniau,
Gwedi dechreu 'r ffordd i'r nef.
Oedd â'i olwg mor nefolaidd,
A'i lais peraidd megis swyn
Pan yn coffa 'r cariad hwnnw,
'R Iesu 'n marw er ein mwyn ! !

Amlwg iawn fod e'n addfedu,
'Chydig cyn ei drosi draw,
Fel gwenithyn pur i'r 'sgubor
Pan fo tymmor hwn gerllaw:
Er dyddanwch mawr i'w deulu,
Ca'dd ddychwelyd 'n ol yn iach,
Ca'dd ro'i hanes crefydd Cymru,
I'w dyddanu dipyn bach.

Yn yr adeg fwyndeg honno,
Disgwyl ydoedd Engyl nef,
Am gael cennad bob mynydyn,
Fyn'd i lawr i'w 'mofyn ef;

'Mhen ychydig ddydddiau gwedi,
  Cawsant gennad Iesu cu,
Yno 'i ddwyn yn anrhydeddus,
  I'w cymdeithas felus fry.

Cysur mawr, a galar hefyd,
  I deimladau 'i anwyl dad,
Glywed iddo i 'madael cynted,
  Gwedi myned 'n ol i'w wlad;
Hynny 'nghyd ac arfer henaint
  'Ffeithiodd arno gymmaint nych,
Nes i'r peiriant cryf oedd ganddo,
  Fethu dala i weithio 'n wych.

Yn ei waeledd 'n ol anhwylio
  Daliai 'r Agerdd etto 'n llawn,
Gyrru 'r oedd yr hên olwynion,
  Trwy beryglon rhyfedd iawn;
Ni feddyliodd am arafu,
  Rhag anmharu 'n gynt na phryd;
Teimlai awydd cryf fyn'd rhagddo,
  Hyd nes llwyr ddiffygio i gyd.

Gwedi 'mroi llafurio 'n galed,
  Yn y winllan amser maith,
Galwodd Duw ei ysbryd atto,
  I'w wobrwyo 'n ol ei waith;
Mae e'n awr yn gwel'd yn eglur,
  Ffrwyth ei lafur yn ddilen,
Yn ei elfen draw mewn ailfyd,
  Coron bywyd ar ei ben.

Ar pedwarydd o Gorphenaf,
  Ca'dd yn araf groesi 'r glyn,
Deunaw cant a thri'gain ydoedd,
  Oed ein Iesu ni pryd hyn;
Yntau hefyd ar yr adeg,
  Ydoedd lawn saith deg a saith,
Pedwar deg a dwy 'n weinidog,
  Yn orenwog yn ei waith.

Yn ei Angladd gwelwyd miloedd,
  Yno 'n lluoedd o bob gradd,
Gwedi 'mgasglu fel Cymmanfa,—
  Rhyw hebryngfa ryfedd ga'dd !
Pawb o bell, a phawb o agos,
  Oedd am ddangos atto barch,
Teimlai pobun eithaf awydd,
  Rhoi ei ysgwydd dan ei Arch.

Rho'w'd ei gorph mewn hedd i orphwys,
  O fewn mynwent Bwlchygroes,
Yn y fan oedd ganddo 'n drefnus,
  Gwedi ddewis yn ei oes :
Fe gaiff orwedd yno 'n dawel,
  Hyd nes bloeddia 'r Angel fry,
Lef o'r nef trwy 'i udgorn treiddgar,
  Uwch ben beddau 'r ddaear ddu.

Yna cwyd yn ogoneddus,
  Mil miliwnau gydag ef,
Gwedi cael eu hysprydoli,
  A'u prydferthu i fyn'd i'r nef;
Pobun at ei hên berthynas,
  Ail brïodas ffurfiant hwy ;
Ni chaiff Angeu Teyrn y ddaear
  Gennad byth i'w hysgar mwy.

Gwyn ei fyd trwy 'r holl gyfnodau,
  Darfu 'r dyddiau i arfer cledd,
Ni wel groes na gofid mwyach
  Yn nghyfeillach Brennin hedd ;
Ninnau 'n ol yn teithio 'r anial,
  Lle mae croesau 'n aml iawn,
Myrdd o lwybrau dyrys hynod,
  Methwn wybod ffordd yr awn !

Tebyg y'm i genedl Israel,
  Pan oedd honno 'n brudd ei bron,
Gwedi colli 'r hên Elias ;
  Adeg ddiflas iawn yw hon ;

Methwn wel'd un arwydd heddyw,
  Pwy yn deilwng leinw'i le,
Pwy mae Duw 'n fwriadu i wisgo
  'R fantell hardd ddiosgodd E'.

Er ymdrechu i chwilio 'n fanwl,
  Mae ein meddwl mor anmheus,
Nid oes neb yn gallu canfod,
  Nac adnabod Eliseus.
Arglwydd dyro arwydd ini,
  Clyw ein gweddi, gwrando 'n cri,
Trwy 'n tuedddu 'n un wneud ymdrech
  Am y dyn ddewisech di.

Dyn fo 'n ddoeth mewn barn a bywyd,
  Dyn fo 'n ddiwyd gyda'i waith,
Dyn o duedd tangnefeddus,
  Dyn gwybodus, medrus, maith;
Dyn fo 'n teimlo dros eneidiau,
  Dyn a ffrwythau gras yn llawn,
Dyn a draetho bethau buddiol,
  Ysgrythyrol ddwyfol ddawn.

Iesu, Bugail mawr y defaid,
  Pan gwna 'r isfugeiliaid ffoi,
Ti all gadw 'th ddefaid gwirion
  Rhag gafaelon cwn f'o'n cnoi.
Arglwyddd grasol gwel ein cyflwr,
  Ti yw 'n Twr a'n tirion Dad:
Ti gymmerodd Griffiths ymaith,
  Ti oedd gwedi 'i roddi 'n rhad.

Bydd yn Dwr i'w Weddw dirion,
  Idd ei Blant, a'i Wyrion oll,
Arwain hwy a ninnau hefyd,
  Tu a'r gwynfyd yn ddigoll,
At y dorf sydd gwedi blaenu
  Ryw ychydig arnom ni,
O gaethiwed llygredd moesol,
  I drag'wyddol Jubili.

EVAN THOMA[S]

*Gorph.* 14*eg*, 1860.

## ENGLYN.

Gwin a llaeth, lluniaeth tra llawn,—ac eli
I'm calon hiraethlawn,
I'w hiachau yn fynych iawn,
Yw cofio braint y cyfiawn.—E. T.

*Emyn a gafodd ei ganu pan oedd y Corph yn myned heibio i Gapel Horeb i gael ei gladdu; yr hwn a gyfansoddwyd y bore hwnnw i'r dyben, gan yr un E. T.:—*

Ffarwel, ffarwel Eglwys Horeb,
Llawer pregeth ro'es i ti,
Hon yw 'r Bregeth ddifrifolaf
Hon yw 'r olaf ga'i gen i;
Gwisg dy nerth ac ymwrola,
Paid er dim a llwfrhau,
Rhaid ymdrechu cyn cael gwynfyd
Tra fo 'r bywyd yn parhau.

## ENGLYN I OSOD AR GAREG FEDD.

*(Priodol i bawb.)*

Y CYFAILL, peth da fydd cofio—y Bedd,
Lle byddi 'n preswylio;
A chael hawl, i freiniawl fro
Dedwyddwch, cyn dod iddo.—E. T.

R. DAVIES, ARGRAFFYDD, CASTELLNEWYDD-EMLYN.